Senedd Cymru
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
—
Welsh Parliament
**Culture, Welsh Language and Communications Committee**

Lee Waters

Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

Llywodraeth Cymru

29 Mai 2020

Annwyl Lee,

**Cefnogaeth i'r Cyfryngau Lleol**

Yn ddiweddar, clywodd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu gan Media Wales a Rhwydwaith Radio Cymunedol Cymru ynghylch eu pryderon am effaith ariannol argyfwng COVID 19.

Mae Paul Rowland, Golygydd Wales Online, wedi disgrifio sefyllfa lle mae refeniw hysbysebu wedi gostwng, mae darllenwyr wedi symud ar-lein i gael eu cynnwys, ac mae'r gostyngiad mewn incwm o ganlyniad wedi arwain at roi staff ar y cynllun ffyrlo. Mae hyn i gyd yn digwydd ar adeg pan mae pobl yn dibynnu yn fwy nag erioed ar ffynonellau newyddion dilys y gellir ymddiried ynddynt.

Ysgrifennodd Rhwydwaith Radio Cymunedol Cymru am eu 'pryderon dybryd ynghylch cyflwr a risg ariannol ein sector' sy'n cael ei staffio i raddau helaeth gan wirfoddolwyr. Maent yn rhybuddio rhag tanamcangyfrif eu rôl wrth gynorthwyo gyda rheoli argyfwng COVID 19:

> 'Since the lock down has been in place, community radio stations have been preparing mission critical safety information in the form of radio bulletins and key messages to LOCAL populations across Wales. This has helped save lives, educate and inform people, and pass on essential information from Public Services and the Welsh Government.'

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDGCh@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCWLC@senedd.wales
0300 200 6565

Mae difrifoldeb y sefyllfa wedi arwain at orsafoedd radio cymunedol a chyfryngau newyddion lleol yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cefnogaeth ariannol uniongyrchol i'w galluogi i barhau i weithredu.

Mae'r Pwyllgor wedi edrych o'r blaen ar faterion sy'n effeithio ar gyfryngau lleol. Daeth yr ymchwiliadau hynny i'r casgliad y gellir gwneud mwy i gefnogi'r diwydiant trwy wariant cyhoeddus ar hysbysiadau statudol a hysbysiadau gwybodaeth. Er enghraifft, roedd yr adroddiad ar yr ymchwiliad i Radio yng Nghymru yn argymell:

> 'Dylai Llywodraeth Cymru ddarlledu mwy o hysbysebion y llywodraeth, yn enwedig ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus, ar orsafoedd Radio Cymunedol a rhoi canllawiau i gyrff eraill y sector cyhoeddus yng Nghymru i dynnu eu sylw at y posibiliadau o ddefnyddio mwy ar y sector.'

Argymhellodd y Pwyllgor hefyd y dylid cynnal archwiliad o'i wariant ar hysbysiadau statudol yng Nghymru a gwariant cyrff cyhoeddus eraill yn ei adroddiad ar newyddiaduraeth newyddion, a chytunwyd ar y ddau argymhelliad hyn gan Lywodraeth Cymru.

Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod cyfryngau lleol yn chwarae rhan hanfodol wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyhoedd am faterion sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar adeg pan mae'r cyfryngau cenedlaethol yn aml wedi cyfeirio at bolisi Llywodraeth y DU yn hytrach na pholisi Llywodraeth Cymru ynghylch y cyfyngiadau symud.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r materion a godwyd gan Media Wales a Rhwydwaith Radio Cymunedol Cymru, gan gynnwys rhoi ymatebion manwl i'r Pwyllgor i'r cwestiynau a ganlyn:

- Beth sy'n cael ei wneud i sicrhau bod hyfywedd gorsafoedd radio cymunedol, sy'n gweithredu ar yr adeg hon, yn parhau?
- A yw Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu gosod hysbysiadau diogelwch cyhoeddus o ran argyfwng COVID-19 yn y cyfryngau lleol (h.y. gorsafoedd radio cymunedol a chyfryngau newyddion lleol)?

- A yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi unrhyw gyngor neu ganllawiau i'r sector cyhoeddus i flaenoriaethu hysbysiadau gwybodaeth gyhoeddus yn y cyfryngau lleol?
- A fydd gwyliau ardrethi busnes yn cael eu hestyn i'r cyfryngau lleol?

Rwy'n gwybod bod Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi cyfryngau lleol fel ffynhonnell wybodaeth annibynnol y gellir ymddiried ynddi ac sydd ei hangen nawr yn fwy nag erioed. Rwy'n pryderu y gallai'r anawsterau ariannol tymor byr sy'n eu hwynebu arwain at weld y ddarpariaeth yn crebachu’n sydyn unwaith ac am byth gyda goblygiadau hirdymor i'n cymdeithas ddinesig.

Er mwyn llywio gwaith y Pwyllgor ac ymateb i'n rhanddeiliaid, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r wybodaeth hon erbyn 15 Mehefin 2020.

Yn gywir,



Helen Mary Jones

Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/DET/1884/20

Helen Mary Jones AS
Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

24 Mehefin 2020

Annwyl Helen Mary Jones AS,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 29 Mai at Ddirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, Lee Waters AS, ynglŷn â'r cyfryngau lleol. Fi sy'n ymateb am fod darlledu a chyhoeddi yn fy mhortffolio i.

Mae'r cyfryngau lleol yn rhan bwysig o'r dirwedd ddarlledu ac maent yn chwarae rhan bwysig wrth roi gwybodaeth i bobl ledled Cymru. Mae'r rôl hon yn arbennig o bwysig yn ystod yr argyfwng COVID-19 presennol, pan fydd yn hanfodol bod pobl yn cael mynediad at y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd yn eu cymunedau.

Rwy'n arbennig o ddiolchgar i'r gorsafoedd radio a'r cyfryngau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n sicrhau bod gennym y wybodaeth ddiweddaraf hanfodol am ddiogelwch yn ystod yr adeg bryderus hon.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr amgylchiadau hynod anodd ac ansicr mae busnesau ac unigolion yn eu profi ledled Cymru. Nid yw llawer o'r cymorth rydym wedi'i ddarparu wrth ymateb i'r pandemig COVID-19 wedi bod ar gyfer sectorau penodol, ac mae wedi cael ei gyflwyno i roi cymorth i fusnesau a sefydliadau ar draws economi Cymru, gan gynnwys y rhai yn sector y cyfryngau. Wrth ymateb i'r argyfwng COVID-19, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi bron £2 biliwn i helpu busnesau yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys Cronfa Cadernid Economaidd Llywodraeth Cymru sydd bellach yn ei hail gam. Mae'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y cam hwn wedi cael eu diwygio i sicrhau ein bod yn gallu cefnogi'r busnesau nad ydym wedi llwyddo i'w helpu hyd yn hyn. Rydym hefyd wedi cyflwyno Cronfa Ymateb i COVID-19: Y Trydydd Sector gan Lywodraeth Cymru, cronfa gwerth £24 miliwn sy'n darparu cymorth ariannol hanfodol ar gyfer sefydliadau trydydd sector. Mae'r ffrydiau cyllid hyn yn rhedeg ochr yn ochr â chynlluniau Llywodraeth ganolog y DU, gan gynnwys y Cynllun

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cadw Swyddi a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig. Rydym yn parhau i alw ar Lywodraeth y DU i ddarparu rhagor o gymorth ariannol i fusnesau a chyflogeion yng Nghymru, i'w helpu yn ystod y cyfnod hynod anodd hwn.

Rydym hefyd wedi darparu cymorth uniongyrchol i'r sector drwy'r Gronfa Newyddiaduriaeth Gymunedol Annibynnol. Er mwyn ymateb i'r pandemig COVID-19, mae cyllid drwy'r cynllun hwn wedi cael ei ailbwrpasu i roi cyllid grant brys i dalu costau o ddydd i ddydd fel rhent, cyflogau, a ffioedd trwyddedau / gwefannau, gyda'r prif nod o gefnogi cyhoeddiadau yn ystod y misoedd hanfodol nesaf i fod yn gynaliadwy ac i barhau i roi newyddion hanfodol i gymunedau yn ystod yr argyfwng. Cafodd rhagor o fanylion ynglŷn â'r Gronfa hon eu rhannu â'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod y bûm yn bresennol ynddo i ateb cwestiynau'r Pwyllgor ar 12 Mai.

Rydym hefyd wedi rhoi cymorth i'r sector cyhoeddi drwy Gyngor Llyfrau Cymru.

Yn ogystal â'r mesurau a amlinellwyd yn y llythyr hwn hyd yn hyn, rwy'n ymateb â rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'ch cwestiynau penodol:

**Beth sy'n cael ei wneud i sicrhau hyfywedd parhaus y gorsafoedd radio cymunedol sy'n gweithredu yn ystod y cyfnod hwn?**

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'r Gronfa Radio Cymunedol gwerth £400,000 sy'n cael ei gweinyddu gan Ofcom yn cael ei defnyddio i roi cymorth hanfodol i orsafoedd radio y mae'r coronafeirws wedi cael yr effaith drymaf arnynt. Gwahoddwyd gorsafoedd cymwys i wneud cais am grant brys i helpu i dalu eu costau craidd. Ar 4 Mehefin cyhoeddodd Ofcom ganlyniadau'r broses hon, gyda dwy orsaf radio gymunedol yng Nghymru yn llwyddo yn eu cais am gyllid brys i'w helpu yn ystod yr argyfwng COVID-19 presennol. Mae'r ffigwr hyn yn adlewyrchu'r nifer fach o orsafoedd radio yng Nghymru a wnaeth gais am gyllid.

Bydd Ofcom yn gwahodd ceisiadau am rownd arall o gyllid brys, gyda'r nod o ddyfarnu gweddill y cyllid sydd ar gael. Bydd hyn yn rhoi cyfle arall i orsafoedd wneud cais am gymorth ariannol, a rhagor o amser i asesu eu gweithrediadau a'u sefyllfa ariannol. Bydd rhagor o fanylion ar wefan Ofcom maes o law. Yn y cyfamser mae fy swyddogion yn gweithio gydag Ofcom i sicrhau bod yr holl ymgeiswyr cymwys yng Nghymru yn gwybod am y cyfle hwn i wneud cais am y cyllid ychwanegol hwn, ac i ystyried opsiynau i helpu ymgeiswyr yn ystod broses.

Mae'r sector yn cysylltu ag Ofcom yn rheolaidd mewn perthynas ag effaith y pandemig COVID-19 ar orsafoedd radio, ac i chwilio am opsiynau i helpu'r rhai sydd wedi dioddef yr effeithiau trymaf, gan gynnwys cynlluniau talu a gohirio taliadau am ffioedd trawsyrru. Mae'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon hefyd wedi bod yn trafod y mater hwn ag Arqiva. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod ag Ofcom yng Nghymru ynghylch y ffordd mae'r sector yn cael ei gefnogi yn ystod y cyfnod anodd a heriol hwn.

**Sut mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu'r hysbysiadau diogelwch y cyhoedd am COVID-19 mae'n eu cyhoeddi drwy'r cyfryngau lleol (h.y. gorsafoedd radio cymunedol a'r cyfryngau newyddion lleol)?**

Mae contractau Llywodraeth Cymru ar gyfer marchnata, hysbysebu a phrynu cyfryngau yn cael eu rheoli gan y Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu. Mae hyn yn cynnwys cadw mewn cysylltiad â chontractwyr ac adolygu'r gwaith yn rheolaidd, gydag asiantaethau'n cael eu cyfarwyddo i gynnwys platfformau lleol yn eu cynlluniau prynu cyfryngau fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi Gorsafoedd Radio Cymunedol a'r Diwydiant Papurau Newydd ledled Cymru.

Yn ystod yr argyfwng COVID-19, mae swyddogion cyfathrebu’n parhau i sicrhau bod cyfryngau lleol yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau’r cyfryngau ar gyfer gwaith COVID-19, fel rhan o ddarparu gwybodaeth allweddol ac effeithiol am ddiogelwch y cyhoedd.

Mae Llywodraeth Cymru, gan weithio'n agos gyda'i phrynwyr cyfryngau arbenigol, wedi sicrhau bod gorsafoedd radio lleol a chymunedol a chyfryngau newyddion lleol ledled Cymru yn cael eu cynnwys yn y gwaith o brynu cyfryngau ar gyfer yr holl waith ar COVID-19, gan gynnwys ymgyrchoedd o dan ymbarél ‘Diogelu Cymru'.

**A yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi unrhyw gyngor neu ganllawiau ar gyfer y sector cyhoeddus mewn perthynas â blaenoriaethu hysbysiadau gwybodaeth i’r cyhoedd yn y cyfryngau lleol?**

Nid yw'n arferol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ar brynu cyfryngau i'r sector cyhoeddus.


**A fydd y Seibiant Ardrethi Busnes yn cael ei estyn i’r cyfryngau lleol?**

Mae pecyn cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer ymateb i’r argyfwng COVID-19 yn cynnwys dros £350 miliwn i helpu busnesau gyda’u hardrethi annomestig yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod na fydd pob busnes yn elwa ar y rhyddhad ardrethi a’r cymorth grant a ddarperir. Mae’r pecyn wedi cael ei gynllunio i fod yn fforddiadwy o fewn y cyllid sydd ar gael. I sicrhau eglurdeb a chysondeb wrth weinyddu’r cynlluniau, nid oes unrhyw gynlluniau i ddiwygio’r meini prawf cymhwysedd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda’r sector yng Nghymru i ymateb i effaith yr argyfwng COVID-19 ac wrth inni ddechrau adfer o’r argyfwng.

Hoffwn ddiolch i’r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu am godi’r materion hyn ac am ei ymrwymiad i ymdrin â’r problemau mae’r cyfryngau lleol yng Nghymru yn eu hwynebu.

Yn gywir,



**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism